

Crynhoi gyrfa'r cerflunydd Jonah Jones

**MAE ARDDANGOS I GOFFAU
CANMLWYDDIANT GENI'R
CERFLUNYDD JONAH JONES
YN AGOS AT GALON EI
DEULU...**

Mae'n golygu'r byd i mi ac i'r teulu i gyd," meddai mab y cerflunydd, Pedr Jones, wrth dywys **Golwg** o gwmpas yr arddangosfa ym Mhen Llŷn, "ac rydan ni mor falch a mor ddiolchgar i Blas Glyn y Weddw am ddangos y sioe."

Bu'r teulu – ei blant Pedr, Naomi a David a'u teuluoedd – yn cydweithio gyda'r Oriel i greu'r arddangosfa ac roedd tua 200 o bobol yn yr agoriad a 100 yn y ddarlith a'r sgysiau a gafodd eu trefnu i drafod ei waith.

Er iddo gael ei eni yn Swydd Durham, bu Jonah Jones yn byw yng Nghymru o 1948 a chafodd ei ystyried yn gerflunydd amlycaf Prydain gyda'i waith i'w weld mewn sawl man ac ar sawl plac yng Nghymru ac yn Abaty Westminster.

Dyma'r eilwaith yn unig i un o'i gerfluniau, 'Abraham II' o 1960, sy'n darlunio Abraham ar fin aberthu Isaac ac sydd ym meddiant yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd – gael ei arddangos yn gyhoeddus.


"A dweud y gwir, dyw ei waith ddim yn cael digon o le cyhoeddus," meddai Pedr Jones. "Cafodd y darn hwn ei roddi i'r Amgueddfa Genedlaethol gan CASW (*Contemporary Art Society for Wales*)... ac mae o wedi bod yn y seler.

"Dyma ydi ond yr eilwaith i hwn gael ei weld ers hynny. Cafodd ei ddangos mewn arddangosfa yn yr Amgueddfa Genedlaethol yn 2012 - 2013 ac wedyn mae wedi dod allan ar gyfer yr arddangosfa yma."

Y teulu sy'n berchen ar nifer o'r darnau gan gynnwys y cerflun modern o lechen a marmor, 'Gŵr Corris'.

"Roedd Jonah yn arbennig o falch o hwn," meddai Pedr Jones a'i prynodd mewn ocsiwn. "Dyweddodd ei fod yn '*A piece I rate highly in a lifetime's work*'. Roedd wedi mynd i Aberllefenni yn ne Meirionnydd i nôl llechen o'r chwael yno. Mi welodd o ffermwr yn mynd ar ôl ei ddefaid, yn mynd rhwng y bwll rhwng y ffensys llechi yma. Dyna'r syniad. Mae cymaint o gryfder ac egni yn y darn. Mae'n tarddu o dirwedd Cymru."

Y cerflun cyntaf a wnaeth erioed yw cerflun bach o bren olewydd o gorff y dduwies Roegaidd Aphrodite, 'Torso Noeth' (1945), o'i gyfnod yn gweithio ym Mhalestina o dan y Mandad Prydeinig. Roedd wedi treulio cyfnod yn Jerwsalem gyda'i gyfaill, yr artist



'Abraham II' (1960), carreg Horton, sydd yn seler Amgueddfa Genedlaethol Cymru

John Petts, gan ymweld â'r Amgueddfa Archeolegol a'i chasgliad o gerfluniau clasurol Rhufeinig a Groegaidd.

Er na chafodd hyfforddiant ffurfiol, roedd Jonah Jones yn gweithio mewn sawl cyfrwng – yn llythrennu mewn llechen, cerfiadau mewn maen, penddelwau efydd o enwogion - Gwynfor Evans a John Cowper Powys yn eu plith. Mae darnau o'r ffenestri lliw '*dalle de verre*' a wnaeth gyfer eglwys Gatholig Morfa Nefyn yn y 1960au yn yr Oriel. Roedd wedi cael truedigaeth i'r Eglwys Gatholig yn 1956 a byddai themâu crefyddol yn llawer o'i waith yn y cyfnod.

"Mae hwn yn sampl o'i waith," meddai Pedr Jones. "Dyma mae'r arddangosfa yma wedi ei gyflawni – mae'n eang o ran y teip o waith. Mae gynnwys ni ddarnau o bob cyfnod o'i gerfluniau, esiamplau o'i wydr,



Jonah Jones yn torri plac i Brifysgol Ibadan, Nigeria



Torso Noeth, 1945, Torso Noeth, 1945, pren olewydd – cerflun cyntaf Jonah Jones

ei baentiadau oedd yn dirluniau, a llythrenwaith, y penddelwau a'r cerfluniau wal."

CEFNDIR A CHARU CYMRU

Adeg yr Ail Ryfel Byd, roedd Jonah Jones wedi'i gofrestru yn wrthwynebydd cydwybodol a bu'n goedwigwr yn Exmoor a'r Alban cyn troi am Wensleydale yn Swydd Efrog. Yno y dechreuodd ar ei waith celf wrth greu dyfrlliwiau gan ddysgu wrth droed Fred Lawson o griw artistiaid Castle Bolton.

Symudodd i Gymru yn 1948 ac i Eifionydd i fod yn gynorthwydd yng Ngwasg Caseg Llanystumdwy gyda'i gyfaill, yr artist-grefftwr John Petts oedd yn gyd-aelod o uned '224 Parachute Field Ambulance' yn y rhyfel.

Un o'i weithiau cynharaf yn yr arddangosfa yw 'Golygfa o Bron y Foel' (1949) - dyfrlliw a baentiodd o'u cartref wrth ymyl Moel y Gest, rhwng Cricieth a Phorthmadog.

"Roedd angen gwaith ar Jonah ac roedd Petts yn ei gynnig o," meddai Pedr Jones. "Rheswm arall, roedd yn awyddus i symud i ffwrdd o'r gogledd ddwyrain, ardal ei deulu, achos roedd posibilïadau ar gyfer ei yrfa yn gyfyng."

Cafodd ysgoloriaeth i astudio yn Pigotts yn Swydd Buckingham - hen ffermdy'r cerflunydd Eric Gill - yn 1949 lle dysgodd gerfio arysgrifen mewn maen gan Laurence Cribb. Ar ôl dychwelyd i Gymru, agorodd ei weithdy yn Nhremadog a'i gomisiwn cyntaf oedd arysgrifen ar gyfer Tŷ'r Prifathro gan Lywydd Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth, Thomas Jones, ac wedyn ar gyfer carreg fedd Lloyd George yn Llanystumdwy.

Ond cafodd ei daro'n sâl gyda'r diciâu, a bu'n rhaid iddo dreulio cyfnod i wella yn Sir Fôn a'r Swistir. "Amharodd hynna ar ei yrfa," meddai ei fab. "Roedd e jest newydd ddechrau gweithio."

Ond roedd "wedi dewis Cymru" ac roedd Jonah Jones yn ystyried ei hun yn Gymro gan fagu ei blant, gyda'i wraig yr awdur Judith Maro yr oedd wedi cwrdd â hi ym Mhalestina, yn Gymru Cymraeg. Roedd ganddo syniad bod ganddo gyndeidiau o Gymru, am mai John Jones oedd ei dad, a oedd wedi symud o Wlad yr Haf i Swydd Durham.

Y CERFLUNYDD "UNIGRYW YN Y GYMUNED"

Y cof cyntaf sydd gan Pedr Jones o'i dad yn gwneud celf oedd pan oeddenn nhw'n byw "mewn tŷ cwnsil" ym Mhentrelefen yn y 1950au.

"Bryd hynny roedd ganddo fo weithdy bach mewn sied. Roedd e'n cerfio darnau bychain, fel y rhain," meddai gan gyfeirio at gerfluniau tywodfaen coch 'Gwraig yn Eistedd' a 'Gwraig yn Sefyll' sydd yn Oriel Glyn y Weddw ar fenthyg o Oriel Môn.


"Ffurfiâu cerfiedig o'r ffurf ddynol." Roedd cael tad oedd yn gerflunydd yn peri "syndod" i'r cymdogion ym Meirionnydd y 1950au, yn ôl Pedr Jones.

"Doedden nhw ddim yn gwybod beth i'w wneud ohono fo," meddai. "Yn raddol daeth pobol i'w barchu fo. Dw i'n cofio bod yna lot o barch ato yn yr ardal. Roedd yn unigryw yn y gymuned."


"Roedd o'n benderfynol o beidio ymddangos fel arlunydd mewn tŵr



Bethel II, 1989, carreg Portland ac eurddalen



Gŵr Corris, 1974, marmor Nabresina a llechen



Pedr Jones yn Oriel Plas Glyn y Weddw

ifori, yn hytrach roedd o eisio bod yn rhan annatod o'r gymuned, fel y gof a'r saer coed. Dyna beth oedd ei athroniaeth o. Roedd o wastad yn sôn am weithio mewn gweithdy ac nid stiwdio. Mi oedd hynny'n bwysig iawn iddo fo.

"Un peth ges i o'r cyfnod hynna oedd cymryd celf yn ganiataol fel rhan annatod o fywyd. Fedra i ddim dychmygu byw heb weithiau celf o'n cwpas yn y cartref."

"Yn yr un modd, doedd o ddim yn tynnu gwahaniaeth rhwng crefft a chelf. Iddo fo, roedd llythrennu da clasurol fel y gwnaeth o i Abaty Westminster ac o gwmpas Cymru, roedd y rheiny yn gelf yn yr un modd â'r cerfluniau yma."

TROI NÔL AT JACOB

Mae Pedr Jones yn arbennig o falch o'r cyfle i arddangos dau gerflun sydd o flaen y ffenestr fawr yn yr oriel - 'Bethel I (Jacob ym Mheniel)' (1988) a

'Bethel II' (1989). 'Dyma ddiwedd addas i'w yrfa fel cerflunydd carreg', meddai'r catalog. 'Ni fyddai'n gwneud unrhyw waith creadigol pellach yn ei hoff gyfrwng, wrth i oedran a chrydcymalau oddiweddyd.'

Roedd erbyn hynny yn troi nôl at y thema grefyddol a oedd yn ei gerfluniau bach yn y 1950au, 'Jacob ym Mheniel' (1953) a 'Jacob a'r Angel' (1950) pan oedd yn "obsessed efo Jacob", yn ôl Pedr Jones.

"Mi ddaeth o nôl i'r syniad o Jacob yn hwyr yn ei yrfa," meddai'r mab. "Yr adeg yma o'i yrfa, roedd o'n crynhoi ei holl yrfa fel cerflunydd. Felly roedd o'n mynd yn ôl i gerfio ffigurol. Hefyd, roedd o eisio gwneud ambell i ddarn haniaethol hefyd."

Mae 'Bethel' I a II yn ddarnau enfawr mewn marmor a llechen ac mewn carreg Portland a wnaed gan Jonah Jones pan oedd yn 70 oed.

"Ro'n ni'n glanhau hwn y flwyddyn ddiwetha," meddai Pedr Jones am

**"Roedd o'n
benderfynol
o beidio
ymddangos fel
arlunydd mewn
tŵr ifori..."**

'Bethel II', sy'n edrych fel corff yn gorweddian a llinyn aur yn llifo drwyddo. "Roedd wedi cael ei adael allan am flynyddoedd. Do'n i bron â methu ei symud o gwbl, mae o mor drwm."

Yn ogystal â'i waith celf, fe ysgrifennodd Jonah Jones ddwy nofel, teithlyfr am lynnoedd gogledd Cymru, casgliad o ysgrifau a bywgraffiad o'r pensaer Clough Williams-Ellis, ei ffrind a'i nochber. Mae ei bartredol o garreg Caerfaddon i'w gweld ym Mhortmeirion.

Mae llawer o'i waith yn ymdrin â'r Mabinogi a'r darn 'Ardudwy' (1994) yn cyfuno llawysgrifau hynafol a thirlun o'r olygfa dros Draeth Bach yn edrych tuag Harlech.

"Mae'r tirlun yma wedi ei drwytho yn hanes y mabinogi, yn enwedig yr ail gangen," meddai Pedr Jones am ddiddordeb ei dad. "Roedd yn crwydro'r mynyddoedd efo'i gorfilgi - ei *whippet* - Lowri. Cofiwch roedd o'n fab i löwr, ac roedd glowyr yn draddodiadol yn cadw corfilgwn."

"Roedd yn meddwl bod y Mabinogi yn dweud rhywbeth hanfodol am Gymru. Mi uniaethodd ei hun gyda hyn," meddai, "pan benderfynodd ei fod o'n teimlo ei fod o yn Gymro, ac mai Cymru oedd ei wlad."

NON TUDUR

**JONAH JONES - ARDDANGOSFA
CANMLWYDDIANT, ORIEL PLAS
GLYN-Y-WEDDW, LLANBEDROG,
TAN FAWRTH 17**